**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**ADRODDIAD DROS DRO AR AROLYGON O GYFLWR STOC AWDURDODAU LLEOL**

**Pwrpas**

1. Hysbysu'r Pwyllgor a chael ei farn ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol wrth gynnal arolygon o gyflwr stoc. Mae hyn yn bodloni ymrwymiad o gyfarfod 18 Gorffennaf, yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o raglenni ymchwil tai a gynllunnir ar gyfer 2001-02.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae'r papur yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol wrth gynnal arolygon o gyflwr stoc. Argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi'r papur ac yn cynnig sylwadau ar y cynnydd.

**Amseru**

3. Cyflwynir y papur hwn i'r Pwyllgor yn awr fel y gellir cynnwys ei safbwyntiau yn y gwaith o fonitro cynnydd pellach gan awdurdodau lleol.

**Cefndir**

4. Rhoddwyd cyfarwyddyd ar y broses o gynnal arolygon o gyflwr stoc tai sydd o dan reolaeth awdurdod lleol ym mis Ionawr 2001 yn dilyn arolygon peilot gan 5 awdurdod lleol.

5. Yn dilyn yr arolygon peilot, mae cyllid grant o'r gyllideb Ymchwil Tai, cyfanswm o £750,000 dros gyfnod o dair blynedd, wedi ei roi tuag at gyllido rhaglen o arolygon o gyflwr stoc awdurdodau lleol.

6. Hyd yn hyn, derbyniwyd ceisiadau gan 8 awdurdod lleol, ac maent i gyd wedi derbyn cyllid grant o 50%, cyfanswm o £588,000, tuag at y gost o arolygon arfaethedig o gyflwr eu stoc. Mae swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r holl awdurdodau a dderbyniodd grant, sef: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd, Abertawe, Cyngor Sir Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cynhelir y mwyafrif o'r arolygon hyn yn ystod 2002, i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2003.

**Ystyriaeth**

7. Mae "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" yn datgan gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru sef "bydd gan bob cartref yng Nghymru y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd: mewn cyflwr da; yn ddiogel a chadarn; gyda gwres digonol, yn defnyddio ynni'n effeithiol ac wedi'u hinswleiddio'n dda; yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern". Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol presennol yn cwrdd â'r safon uchod erbyn 2012.

8. Er mwyn cyflawni gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystod 2002, bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fesur y costau o atgyweirio a gwella stoc cartrefi cyngor, a chynhyrchu cynlluniau sy'n dangos y bydd eu stoc wedi'i adnewyddu erbyn 2012. I ddechrau, bydd y cynlluniau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i bob awdurdod lleol. Bydd y cynlluniau yn cael eu haddasu wrth i wybodaeth well am gyflwr stoc ddod i law, gyda'r nod y bydd gan bob awdurdod lleol gynlluniau adnewyddu wedi'u seilio ar wybodaeth fanwl o gyflwr eu stoc erbyn 2006 fan pellaf, er mwyn cyrraedd y safon ansawdd gofynnol.

**Cydymffurfiaeth**

9. O dan Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gall y Cynulliad wneud unrhyw beth (gan gynnwys caffael a diddymu hawliau eiddo) sydd â'r nod o hwyluso neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â gweithredu'i swyddogaethau.

10. Mae Adran 5 (1) Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyllido ymchwil. Rhoddwyd y pwerau hyn i'r Gweinidog. Nid oes materion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Mae goblygiadau ariannol y gwariant a nodir yn y papur hwn eisoes wedi eu hystyried o dan yr argymhelliad i gymeradwyo'r gwariant grant ym mis Mehefin 2001 (SF/01/4602). Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad (nac ychwaith i awdurdodau lleol).

**Themâu cyffredin**

12. Nod cynnal arolygon o gyflwr tai gan awdurdodau lleol yw datblygu strategaeth dai'r Cynulliad. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd cyfartal, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a datblygiad cynaliadawy.

**Gwaith y pwyllgor**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur a chynnig sylwadau ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol wrth gynnal eu harolygon o gyflwr stoc eu tai.

**Pwynt cyswllt**

Y Gyfarwyddiaeth Dai, Paul Davies, est. 6930